


## Diolch am gefnogi'r Barbeciw




Hoffwn ddiolch yn fawr i chi i gyd am gefnogi'r Barbeciw neithiwr. Roedd y tywydd yn ein herbyn, ond llwyddwyd i gynnal y mwyafrif o ddigwyddiadau, ac mi berfformiodd y plant yn wych yn y Neuadd. Dwi'n falch iawn ohonyn nhw.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r G.Rh.A am yr holl waith trefnu – gwerthfawrogaf eu hymdrechion codi arian yn fawr trwy gydol y flwyddyn. Diolchwn hefyd i chi rieni sydd ddim ar y Pwyllgor am roi hanner awr yma ac acw i gynorthwyo ar y stondinau- help mawr! Diolch.



**Bydd Cyfarfod Blynyddol y G.Rh.A yn Neuadd yr ysgol ar nos Fercher y 1af o Hydref am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.**

## *Thank you for supporting the Barbecue*

*I would like to thank you all very much for supporting the Barbecue last night. The weather was against us, but we managed to hold most of the events, and the children performed wonderfully in the Hall. I am very proud of them.*

*I would like to thank the P.T.A. members for all their organising – I greatly appreciate their fundraising efforts throughout the year. We also thank you parents who are not on the Committee for giving half an hour here and there to help out on the stalls – a big help! Thank you.*

***The P.T.A. Annual General Meeting will be held in the school Hall on Wednesday evening, October 1st at 6 o'clock. A warm welcome to all.***

---



## Prydlondeb

Hoffwn eich hatgoffa eto o bwysigrwydd prydlondeb yn y bore. Mae staff wrth y giât i'ch croesawu tan 9 o'r gloch, ond yna mae ganddynt ddyletswyddau cefnogi disgyblion, cofrestru a chyfri rhifau cinio. Os ydych yn cyrraedd wedi 9 bydd angen i chi fod yn amyneddgar os gwelwch yn dda tan fydd aelod o staff ar gael i ddod i agor y giât i chi.

## *Punctuality*

*I would like to remind you again of the importance of being punctual in the mornings. Staff are at the gate to welcome you until 9 o'clock, but then they have duties supporting pupils, registration, and counting lunch numbers. If you arrive after 9, please be patient until a member of staff is available to come and open the gate for you.*

---




Dewch am dro i'r dre

## Cynefin ar Gân – Dewch am dro i'r dre

Efallai i chi sylwi neithiwr ar flynyddoedd 4 a 5 yn canu cân a gyfansoddwyd y llynedd, ac a berfformiwyd fel cân y Côr yn ein Eisteddfod Ysgol. Yn yr haf creuwyd ffilm i fynd gyda'r gân ac mae wedi ei llwytho i Youtube. Gweler y ddolen isod.

Dewch am dro i'r dre - YouTube

## *Cynefin ar Gân – a new song*

*You may have noticed last night that Years 4 and 5 sang a song that was composed last year and performed as the Choir's song in our School Eisteddfod. In the summer, a film was created to go with the song and it has been uploaded to YouTube. Please see the link below.*

Dewch am dro i'r dre - YouTube

## Digwyddiadau Er Cof

Rydym fel ysgol yn dal i deimlo effaith colli dau aelod annwyl o staff. Dyma rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar y gweill i'w coffau.

Dyfed Jones – ar ddiwedd y mis bydd taith gerdded ar gyfer y disgyblion yn cael ei drefnu ar dir yr ysgol ar ddydd Gwener, gyda'r staff yn parhau gyda'r cerdded yn ardal Llanbed ar y dydd Sadwrn. Byddwn yn clymu tasgau rhif gyda'r weithgaredd (roedd Mr Jones wrth ei fodd gyda Mathemateg!) Y nod fydd i gerdded targed penodol o filltiroedd. Rhannaf fwy o wybodaeth yn llythyr wythnos nesaf.

Daniel Thomas – ar ddiwedd tymor yr haf rhannodd elusen goeden gyda dosbarth Y Castell i'w phlannu yn yr ysgol. Bydd dosbarth Y Castell (y llynedd) yn gwneud hynny wythnos nesaf. Yn ogystal, mae'r teulu wedi trefnu casgliad er cof amdano i Ambiwlans Awyr Cymru a Tŷ Hafan. Os hoffech gyfrannu at hyn, mae croeso i chi anfon arian mewn amlen dan sêl at Mrs Wendy James yn Swyddfa'r Ysgol erbyn dydd Gwener nesaf (19/09/25)

Bydd y G.Rh.A hefyd yn trafod ffyrdd i goffau'r ddau. Mwy o wybodaeth i ddilyn.

## *In Memory*

*As a school, we are still feeling the impact of losing two dear staff members. Here is some information about upcoming events to commemorate them.*

*Dyfed Jones – At the end of the month, a walk will be organised for the pupils on the school grounds on Friday, with the staff continuing the walk in the Lampeter area on Saturday. We will tie number tasks in with the activity (Mr Jones loved Maths!). The aim will be to walk a set target of miles. I will share more information in next week's letter.*

*Daniel Thomas – At the end of the summer term a charity donated a tree to Y Castell class to plant in the school in his memory. Y Castell class will be doing this next week (last year's class). In addition, the family has arranged a collection in his memory for Wales Air Ambulance and Tŷ Hafan. If you would like to contribute to this, you are welcome to send money in a sealed envelope to Mrs Wendy James in the School Office by next Friday (19/09/25).*

*The PTA will also be discussing ways to commemorate both. More information to follow.*

---




## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.
Wythnos hon :

- Gŵyl y Castell – yfory
- WCW – cylchgrawn
- Arad Goch – Clybiau drama
- Dreigiau Bach
- Gwersi Cymraeg i Oedolion

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*
*This week:*

- *Gŵyl y Castell Festival – tomorrow*
- *WCW – magazine*
- *Arad Goch – Drama clubs*
- *Dreigiau Bach*
- *Welsh lessons for adults*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau


Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.
Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram

---



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

**Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:**

- Barbeciw Haf y G.Rh.A : Medi $11^{eg}$
- Traws Gwlad Cylch Aber : Medi $25^{ain}$
- Tynnu lluniau unigol a theuluoedd : Hydref $7^{fed}$
- Diwrnod Rhyngwladol : Hydref $10^{fed}$
- Nosweithiau Agored : Hydref $20^{fed}$ ac $21^{ain}$
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref $24^{ain}$
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr $11^{eg}$

***Autumn term important dates:***

- *PTA Summer Barbeque : September $11^{th}$*
- *Aberystwyth Area Cross Country : September $25^{th}$*
- *Individual and family photographs : October $7^{th}$*
- *International Day : October $10^{th}$*
- *Open Evenings : October $20^{th}$ and $21^{st}$*
- *Last day of this half term : October $24^{th}$*
- *Christmas Concert : December $11^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**12/09/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru










Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CYNGOR TREF ABERYSTWYTH TOWN COUNCIL

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities


CLYBIAU DRAMA
Yng Nghanolfan Arad Goch
Datblygu Sgiliau
BlAGur Bach
I blant Blwyddyn 2 a 3 , bore dydd Sadwrn 10:00 - 11:30
Perfformio
BlAGur Mawr
I blant Blwyddyn 4 > 6 , prynhawn dydd Llun 16:00 - 17:30
Clybiau trwy gyfrwng y Gymraeg.
We Welcome new Welsh speakers.
£70 am Tymor (10 sesiwn)
Sesiwn blasu am ddim
I ymaelodi cysylltwch ag : anne@aradgoch.org
Cwmni Theatr Arad Goch


TORRI TIR
Cwmni Theatr Arad Goch
GRŴP THEATR I OEDOLION DALGYLCH ABERYSTWYTH YNG NGHANOLFAN ARAD GOCH
Os oes gennych ddiddordeb mewn actio , sgriptio, gwisgoedd, props neu elfennau technegol theatr, dewch i ymuno a Grŵp Torri Tir!
£70 am Tymor (10 sesiwn) Sesiwn blasu am ddim.
Am fwy o wybodaeth – cysylltwch post@aradgoch.org / 01970 617998


New Term
Now available
DREIGIAU BACH
Tymor Newydd
Nawr ar gael
dreigiaubach.cymru

## FREE ONLINE WELSH COURSES
## CYRSIAU CYMRAEG AR-LEIN AC AM DDIM

### NORTH WALES / GOGLEDD CYMRU

| DAY / DIWRNOD | TIME / AMSER | START DATE / DYDDIAD CYCHWYN | END DATE / DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Monday / Dydd Llun | 09:30 - 10:30 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Monday / Dydd Llun | 18:30 - 19:30 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Tuesday / Dydd Mawrth | 19:30 - 20:30 | 23/09/25 | 02/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 18:00 - 19:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 19:00 - 20:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 20:00 - 21:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |

**Clwb Cwtsh is a fun-filled and informal programme focusing on speaking Welsh with young children.**

Mae Clwb Cwtsh yn gwrs blasu Cymraeg sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref.

I gofrestru, ebostiwch / To register, email:clwbcwtsh@meithrin.cymru

mudiad meithrin

## FREE ONLINE WELSH COURSES
## CYRSIAU CYMRAEG AR-LEIN AC AM DDIM

### SOUTH WALES / DE CYMRU

| DAY / DIWRNOD | TIME / AMSER | START DATE / DYDDIAD CYCHWYN | END DATE / DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Tuesday / Dydd Mawrth | 09:30 - 10:30 | 23/09/25 | 02/12/25 |
| Tuesday / Dydd Mawrth | 19:00 - 20:00 | 23/09/25 | 02/12/25 |
| Tuesday / Dydd Mawrth | 19:45 - 20:45 | 23/09/25 | 02/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 10:30 - 11:30 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 13:30 - 14:30 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 15:30 - 16:30 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | 19:30 - 20:30 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | 09:30 - 10:30 | 25/09/25 | 04/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | 10:30 - 11:30 | 02/10/25 | 11/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | 18:00 - 19:00 | 25/09/25 | 04/12/25 |

I gofrestru, ebostiwch / To register, email:clwbcwtsh@meithrin.cymru

mudiad meithrin

## FREE FACE TO FACE WELSH COURSES
## CYRSIAU CYMRAEG GWYNEB I WYNEB AM DDIM

### NORTH WALES / GOGLEDD CYMRU

| DAY / DIWRNOD | LOCATION / LLEOLIAD | TIME / AMSER | START DATE / DYDDIAD CYCHWYN | END DATE / DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|---|
| Monday / Dydd Llun | Moelfre | 10:00 -11:00 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Monday / Dydd Llun | Benllech | 13:00 -14:00 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Llanfairfechan | 10:00 -11:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Treffynnon / Holywell | 10:00 -11:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Wrecsam / Wrexham | 10:00 - 11:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Penmaenmawr | 13:15 - 14:15 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Llangollen | 14:00 - 15:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Coedpoeth Wrecsam / Wrexham | 14:15 - 15:15 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Llanrhaeadr, Dinbych | 09:30 - 10:30 | 25/09/25 | 04/12/25 |
| Friday / Dydd Gwener | Abermaw / Barmouth | 10:00 - 11:00 | 26/09/25 | 05/12/25 |
| Friday / Dydd Gwener | Y Trallwng / Welshpool | 11:30 - 12:30 | 26/09/25 | 05/12/25 |
| Friday / Dydd Gwener | Harlech | 13:00 - 14:00 | 26/09/25 | 05/12/25 |

I gofrestru, ebostiwch / To register, email: clwbcwtsh@meithrin.cymru

mudiad meithrin

## FREE FACE TO FACE WELSH COURSES
## CYRSIAU CYMRAEG GWYNEB I WYNEB AM DDIM

### SOUTH WALES / DE CYMRU

| DAY / DIWRNOD | LOCATION / LLEOLIAD | TIME / AMSER | START DATE / DYDDIAD CYCHWYN | END DATE / DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|---|
| Monday / Dydd Llun | Aberbargoed | 09:30 - 10:30 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Monday / Dydd Llun | Ysgol Pwll Coch Caerdydd / Cardiff | 10:30 -11:30 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Monday / Dydd Llun | Ysgol Glan Ceubal Caerdydd / Cardiff | 13:30 - 14:30 | 22/09/25 | 01/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Ysgol Geilliонnen Abertawe / Swansea | 10:00 -11:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Cross Hands, Llanelli | 10:15 - 11:15 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Caerfyrddin / Carmarthen | 13:30 - 14:30 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Wednesday / Dydd Mercher | Glyncoed, Blaenau Gwent | 15:00 - 16:00 | 24/09/25 | 03/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Grangetown Caerdydd / Cardiff | 10:00 -11:00 | 25/09/25 | 04/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Pentrebach, Merthyr Tudful | 13:00 - 14:00 | 25/09/25 | 04/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Splott Caerdydd / Cardiff | 13:30 - 14:30 | 25/09/25 | 04/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Hwlffordd / Haverfordwest | 13:30 - 14:30 | 02/10/25 | 11/12/25 |
| Thursday / Dydd Iau | Cribarth Abertawe / Swansea | 14:00 - 15:00 | 25/09/25 | 04/12/25 |

mudiad meithrin